Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Grangetown A'r Bae
# Eglwys Sant Paul
# Stryd Paget
# Grangetown
# Caerdydd
# CF11 7LR

## Dyddiad yr arolygiad:  Rhagfyr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Grangetown a'r Bae, sydd yn cwrdd yn neuadd Eglwys Sant Paul, Grangetown, yn awdurdod lleol Caerdydd.

Mae'r lleoliad ar agor am bump bore'r wythnos, rhwng 9.15 a 11.45 y bore ac wedi'i gofrestru i dderbyn 26 o blant rhwng dwy a phum mlwydd oed. Mae saith o blant tair mlwydd oed yn mynychu'r lleoliad. Nid oes yr un plentyn yn cael ei ariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar. Mae'r lleoliad hefyd yn darparu gwasanaeth gofal rhwng 11.45 y bore a 1.15 y prynhawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig a daw ychydig o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol.

Cyflogir pedwar o ymarferwyr amser llawn, sy'n cynnwys yr arweinydd. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd ym mis Ionawr 2017.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mai 2016 a gan Estyn ym mis Rhagfyr 2010

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y lleoliad yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar iawn
- ymarferwyr yn cynnig profiadau diddorol a symbylol i'r plant ar draws holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen sy'n eu hannog i ddatblygu hunanhyder ac i fwynhau gweithgareddau newydd
- arbenigedd ymarferwyr yn cael ei ddefnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'i gilydd yn frwdfrydig i wella cyflawniadau'r plant
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)  y plant yn gadarn
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda iawn ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i blant ddatblygu medrau llafar cadarn iawn
- ymarferwyr yn egnïol iawn ac yn cynnal lefel uchel o frwdfrydedd yn ystod y gweithgareddau sydd yn cyffroi'r plant ac yn eu hysgogi'n grefftus i ddysgu
- ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn dysgu am y gymuned amlddiwylliannol y mae'r lleoliad yn rhan ohoni yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn frwdfrydig ac yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu profiadau a gofal o safon uchel i bob plentyn
- yr holl ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus er mwyn meithrin dysgwyr annibynnol sy'n gweithio'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg
- gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n effeithiol i'r addysgu o ddydd i ddydd
- y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac yn chwarae rôl werthfawr ym mywyd y lleoliad
- gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer adnabod ei gryfderau a llawer o'r meysydd ar gyfer gwella
- cysylltiadau addas yn bodoli rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad
- perthynas y lleoliad gyda rhieni yn gadarnhaol iawn ac mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant

## Argymhellion

A1 Cynllunio gweithgareddau ffocws yn fwy effeithiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn systematig

A2 Defnyddio gwybodaeth asesu yn fwy effeithiol i gynllunio camau nesaf yn y dysgu

A3 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli i werthuso a monitro gwaith y lleoliad yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cylch Meithrin Grangetown a'r Bae yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid yw’n bosibl adrodd ar ddatblygiad plant yn eu medrau na’u lles. Mae hyn oherwydd mai ychydig iawn o blant perthnasol oedd yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn cynnig profiadau diddorol ac ysgogol i’r plant ar draws holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Mae’r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau’r plant sydd yn arwain at lefel uchel o ymrwymiad ac annibyniaeth ymysg llawer ohonynt.

Mae’r cynllunio wythnosol wedi cychwyn ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn addas. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn rhoi sylw priodol i ddatblygu'r medrau hyn yn ystod gweithgareddau parhaus. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfleoedd da i drafod siapiau dau a thri dimensiwn wrth lapio anrhegion Nadolig ac yn cael eu hannog yn llwyddiannus i ddefnyddio ansoddeiriau cyfoethog wrth ddisgrifio anifeiliaid yr Arctig. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n ofalus er mwyn gwneud defnydd effeithiol o lyfrau darllen mawr wrth gyflwyno storïau mewn arddull fywiog a chyffrous. Mae hyn yn datblygu medrau llafar y plant yn dda yn ogystal â hoffter gwirioneddol tuag at ddarllen. Fodd bynnag, nid yw tasgau ffocws yn cael eu cynllunio’n ddigon manwl er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu medrau’n systematig ac yn cael eu herio’n gyson.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn gadarn. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio camerâu a theganau electronig yn gyson. Mae’r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau meddwl wrth chwarae yn yr ardaloedd ymchwilio tu fewn a thu allan. Er enghraifft, maent yn mwynhau creu persawr gan ddefnyddio petalau blodau a dyfir ganddynt. Mae cyfleoedd buddiol iawn i blant ddatblygu synnwyr o ryfeddod trwy ddefnyddio chwyddwydrau a gefeiliau bach i astudio nodweddion trychfilod, cregyn, brigau a cherrig gwahanol.

Mae pob ymarferydd yn darparu ystod eang o gyfleoedd buddiol i blant ddatblygu medrau llafar Cymraeg cadarn iawn. Mae hwn yn gryfder yn y lleoliad ac mae llawer o’r plant yn datblygu’n siaradwyr hyderus ac abl iawn. Mae’r ymarferwyr yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru, fel diwrnod Santes Dwynwen a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Maent hefyd yn sicrhau bod y plant yn dysgu am y gymuned amlddiwylliannol y mae’r lleoliad yn rhan ohoni. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn paratoi bwyd rhyngwladol fel samosas, pitsa, reis a nwdls unwaith yr wythnos sydd yn cyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd arbennig i’r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill fel Ramadan, Diwali, yn ogystal â dathliadau diwrnod Sant Siôr a Sant Padrig.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gadarn am y cwricwlwm ac maent yn gweithredu ethos ac addysgeg y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn egnïol ac yn cynnal lefel uchel o frwdfrydedd yn ystod y gweithgareddau sydd yn cyffroi'r plant ac yn eu ysgogi'n grefftus i ddysgu. Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn canmol llwyddiannau ac ymdrechion pob plentyn yn effeithiol er mwyn creu awyrgylch gefnogol. Mae hyn yn annog y plant i ddatblygu hunanhyder a mwynhau gweithgareddau newydd heb ofni methu.

Mae ymarferwyr yn arwain y dysgu yn dda iawn wrth gydweithio â grwpiau bach o blant. Maent yn eu holi'n fedrus er mwyn datblygu eu medrau meddwl a'u medrau llafar. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu synhwyrau wrth gyffwrdd ag iâ a chreu peli eira o ewyn eillio. Mae'r gweithgareddau'n amserol ac yn bwrpasol ac mae ymarferwyr yn defnyddio'u harbenigedd yn briodol i gyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd ysgogol i blant greu plethdorch a cherdyn Nadolig neu'n rhoi cyfleoedd i blant dyfu llysiau ar gyfer gwneud cawl ym mis Mawrth. Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad plant ac maent yn defnyddio strategaethau cadarn wrth ymateb i sefyllfaoedd o ymddygiad annerbyniol. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un o'r plant yn iawn.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda iawn er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth gyfoethog o eiriau ac ymadroddion sy'n gysylltiedig â'u themâu. Maent yn ymwybodol o ddatblygiad ieithyddol plant unigol ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd ddysgu diddorol tu fewn a thu allan er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan yn y dysgu. Anogir y plant yn llwyddiannus i fwynhau gweithgareddau awyr agored ac i wisgo'n briodol ar gyfer y tywydd oer. Mae'r profiadau hyn yn cefnogi ac yn ymestyn dysgu a datblygiad corfforol y plant yn llawn.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cyflawniad y plant yn datblygu'n briodol. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion boddhaol o'r hyn y mae pob plentyn yn ei wneud yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio'r asesiadau'n ddigon effeithiol er mwyn olrhain cynnydd a chynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn fwriadus. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar iawn. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel. Maent yn eu trin â pharch a sensitifrwydd er mwyn darparu cyfle cyfartal iddynt ddatblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da iawn i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd byw a bwyta'n iach. Mae'r lleoliad yn gweithredu arfer dda o ran glendid, er enghraifft mewn perthynas â golchi dwylo cyn i blant fwyta eu byrbrydau ac ar ôl bod i'r tŷ bach. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd buddiol i blant fod yn egnïol yn gorfforol, yn enwedig wrth fynd ar feiciau yn yr awyr agored.

Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad diweddar gan greaduriaid anghyffredin fel tarantula, neidr filtroed, chwilod duon enfawr a madfallod. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn mynd â'r plant am dro yn y gymuned yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â'r llyfrgell er mwyn dewis llyfrau i'r gornel ddarllen, yn prynu stampiau yn y swyddfa bost ac yn ymweld â dwy eglwys gyfagos.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda iawn ar ddatblygiad personol, moesol a chymdeithasol y plant trwy bwysleisio'r angen i fod yn deg, i aros eu tro ac i rannu ag eraill. Mae ymarferwyr yn defnyddio pypedau'n synhwyrol i ganolbwyntio ar foesau unigolyn ac i ystyried teimladau ei gilydd. Mae gan bob ymarferydd ddisgwyliadau uchel ac maent yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y plant yn gwneud eu brechdan eu hunain yn ystod amser byrbryd ac yn caniatáu digon o amser iddynt roi menyn ar y bara cyn dewis cynhwysion iachus i'w llenwi.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant gymryd rhan mewn dathliadau fel y cynhaeaf, y Nadolig a'r Pasg, sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol y plant.

Mae gan ymarferwyr drefniadau priodol er mwyn adnabod anghenion ychwanegol plant yn gynnar. Mae cyswllt y lleoliad ag ysgolion lleol yn addas ac mae'r arweinydd yn trefnu ymweliadau ar gyfer y plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff unigolrwydd a chefndir pob plentyn ei gydnabod a'i barchu gan yr holl ymarferwyr. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm ysgogol.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd arbennig o'r ystafell trwy greu ardaloedd dysgu ysgogol. Er enghraifft, maent yn creu ardal dawel a chlud ar gyfer gwrando ar storïau ac edrych ar lyfrau, mannau marcio a phaentio addas ar gyfer creu campweithiau celf, ac ardaloedd eang a phwrpasol i blant adeiladu ar raddfa fawr. Mae'r ardaloedd dysgu hyn yn cael eu creu'n fwriadus bob dydd gan yr ymarferwyr ac maent yn gweithio'n galed i'w newid a'u diwygio'n rheolaidd er mwyn cyd-fynd â ffocws y thema.

Mae cyflenwad addas o adnoddau ar gael i blant sy'n cael eu storio a'u labelu'n glir. Mae'r adnoddau'n hygyrch sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol plant yn llwyddiannus yn ystod y gweithgareddau a phan maent yn tacluso.

Mae gofod awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth y plant o fyd natur wrth iddynt blannu a thyfu llysiau er mwyn eu coginio yn y gegin. Mae'r ardal allanol yn cynnwys amrywiaeth dda o adnoddau i hyrwyddo datblygiad corfforol a chreadigol y plant ac yn sicrhau eu bod yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n ddiogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn frwdfrydig ac yn rheoli gwaith dyddiol y lleoliad yn gydwybodol. Mae'n dangos ymrwymiad cryf i ddarparu profiadau a gofal o safon uchel i bob plentyn yn y lleoliad. Mae ganddi weledigaeth glir ac mae'n gweithio'n llwyddiannus er mwyn meithrin dysgwyr annibynnol sy'n gweithio'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda gweddill yr ymarferwyr i greu ethos sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. O ganlyniad, mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n effeithiol i'r addysgu o ddydd i ddydd.

Mae'r arweinydd, gyda chymorth priodol yr awdurdod lleol, wedi cyflwyno nifer o strategaethau yn ddiweddar i symud y lleoliad ymlaen. Mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth a ddarperir gan yr athrawes ymgynghorol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol yr arweinydd a'r ymarferwyr eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn trefnu'r ystafell yn effeithiol er mwyn diwallu gofynion y cyfnod sylfaen a'r strategaethau llwyddiannus sydd yn cael eu defnyddio i reoli ymddygiad.

Mae gan yr arweinydd drefniadau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr. Mae'n trefnu hyfforddiant a chefnogaeth addas, yn unol ag anghenion yr ymarferwyr a blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u targedau unigol sy'n eu herio'n llwyddiannus i wella'u harferion.

Mae'r pwyllgor rheoli, o dan arweiniad cadeirydd newydd, yn gefnogol iawn ac yn chwarae rôl werthfawr ym mywyd y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth, yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn effeithlon. Mae ychydig o aelodau'r pwyllgor yn ymweld â'r lleoliad yn achlysurol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r lleoliad. Er bod y trefniant hwn yn anffurfiol ar hyn o bryd, mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn deall pwysigrwydd gweithredu fel cyfeillion beirniadol ac mae eu gallu i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant yn datblygu'n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer adnabod ei gryfderau a llawer o'r meysydd ar gyfer gwella. Mae'r holl ymarferwyr yn wybodus am waith y lleoliad. Mae cyfarfodydd wythnosol yn caniatáu i ymarferwyr fynd i'r afael â gwella materion o ddydd i ddydd yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hunanarfarnu'r lleoliad wedi adnabod ychydig o feysydd pwysig sydd angen eu gwella, er enghraifft yr angen i gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae prosesau hunanarfarnu yn cynnwys arsylwadau uniongyrchol o'r addysgu, craffu ar waith a chyflawniadau plant yn ogystal â barn yr holl ymarferwyr, rhieni a gofalwyr y plant, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r trefniadau hyn yn

canolbwyntio'n gryf ar les y plant a'r ddarpariaeth ac maent yn cychwyn ystyried effaith hyn ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni. Mae'r arweinydd yn dangos yn glir sut y mae hi a'r ymarferwyr wedi gwella'r ddarpariaeth dros amser, trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer derbyn y plant i'r lleoliad a'u paratoi ar gyfer ymadael.

Mae cysylltiadau addas yn bodoli rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad. Mae'n cynnwys ffocws priodol ar derfynau amser clir a chamau gweithredu defnyddiol. Mae'r arweinydd yn cynnwys yr holl ymarferwyr yn briodol wrth fonitro cynnydd ac yn gwerthuso effaith y gwelliannau'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac awgrymiadau gan swyddogion ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin er mwyn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, mae cyngor ar sut i sefydlu ardaloedd dysgu ysgogol wedi effeithio'n dda ar ansawdd y profiadau ar gyfer y plant sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau sy'n arwain at brofiadau gwerthfawr i'r plant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Mae perthynas y lleoliad â rhieni yn gadarnhaol iawn ac maent yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn effeithiol trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfleoedd anffurfiol a chyfeillgar dyddiol yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth briodol am ddatblygiad eu plant. Mae ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus i annog rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant. Mae'r holl rieni yn gwerthfawrogi ymdrechion yr ymarferwyr, yn enwedig y safonau uchel o ofal a ddarperir ganddynt.

Mae rhieni'n derbyn adroddiadau priodol am eu plant ar ddiwedd y flwyddyn sy'n rhoi sylw addas i gyflawniad y plant. Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol â'r ysgolion cynradd ac mae ymweliadau'r plant yno cyn cychwyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae gan y lleoliad ystod eang o gysylltiadau â'r gymuned. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad yn aml. Er enghraifft, roedd ymweliad cywion ieir a hwyaid a'u perchennog i'r lleoliad wedi cyfoethogi profiadau uniongyrchol y plant yn effeithiol. Mae ymweliadau blynyddol y lleoliad â Thafwyl, sef gŵyl Gymraeg y brifddinas, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant berfformio caneuon i gynulleidfa ehangach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y plant o bwysigrwydd ymglymiad a chyfranogiad cymunedol.

Mae'r lleoliad yn cynnig profiadau gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr sydd yn astudio cyrsiau datblygiad plentyndod cynnar. Mae'r ymarferwyr yn derbyn cefnogaeth addas gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor a'r arweiniad wedi bod yn gymorth i ddechrau symud y lleoliad ymlaen yn strategol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio awgrymiadau ymarferol yn bwrpasol er mwyn codi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae hyn eisoes yn cael effaith dda ar ddarpariaeth y Gymraeg, sydd o safon uchel.

## Rheoli adnoddau: Da

Mae'r lleoliad yn rheoli staffio, adnoddau a'r cyllid yn effeithiol er mwyn cefnogi dysgu a gwelliannau. Mae gwybodaeth ymarferwyr yn datblygu drwy hyfforddiant priodol i gyflwyno cwricwlwm diddorol. Caiff arbenigedd ymarferwyr ei ddefnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â'i gilydd yn frwdfrydig i wella cyflawniadau'r plant.

Mae gan y lleoliad ystod dda iawn o adnoddau yn yr adeilad sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y cyfnod sylfaen. Mae'r ymarferwyr, aelodau'r pwyllgor rheoli a rhieni yn trefnu ymgyrchoedd codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau newydd a darparu profiadau ysgogol uniongyrchol i'r plant. Mae'r adnoddau yn hygyrch ac o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn cael mynediad cyson i ystod o hyfforddiant addas. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn datblygu'n broffesiynol, er enghraifft wrth dderbyn hyfforddiant ar ddatblygu medrau rhifedd y plant.

O ystyried safon yr addysgu a'r effaith gadarnhaol mae'n ei chael ar safonau a lles y plant, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |